

Rhagarweiniad

1. Parthau

1.1. Ar hyn o bryd mae gan UMAber y parthau canlynol, serch hynny, gellir sefydlu neu ddadsefydlu parthau pellach ar unrhyw bryd ar ddisgresiwn naill ai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Swyddogion Llawn Amser, Cyngor yr Undeb (a elwir hefyd yn y "Cyngor" neu'r "Senedd") a/neu Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

- Parth Academaidd
- Parth Llesiant
- Parth Chwaraeon
- Parth Cymdeithasau

1.2 Caiff yr is-grwpiau hyn eu cydlynu gan eu cadeiryddion a'u rheoleiddio fel a ganlyn.

- a. Gall pob Aelod o UMAber fynychu unrhyw gyfarfod parth.
- b. Cymerir cofnodion o holl gyfarfodydd y parthau a bydd y rheiny i'w gweld ar wefan yr Undeb.

2. Darpariaethau Cyffredinol

2.1 Gall Pwyllgor Gwaith yr Undeb neu Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sefydlu Parthau i ymdrin â materion penodol yn ôl y galw.

2.2 Bydd y Parthau'n fan i gael y diweddaraf, trafod materion, rhwydweithio, siarad, trefnu cymunedol ayyb.

2.3 Gall y Parthau osod/lywio eu polisiau eu hunain ond rhaid iddynt gadw at bolisiau'r undeb ac nid oes modd iddynt eu goruwchreoli.

2.4 Gall y parthau ddewis gwahodd gwesteion i helpu gyda materion penodol.

2.5 Yn gyffredinol, nid oes angen pleidleisiau ffurfiol. Serch hynny, os oes angen pleidlais, bydd y parth yn penderfynu pwy gaiff bleidleisio, gan weithredu er mwyn tegwch.

2.6 Golyga natur anffurfiol parthau nad oes cworwm; bydd y grŵp yn penderfynu beth sy'n briodol.

2.7 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfarfodydd yn rhedeg yn hwylus.

2.8 Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am agenda cyfarfodydd parth.

3. Parth Academaidd

3.1 Diben y Parth Academaidd yw cael y diweddaraf ar waith y Swyddog Materion Academaidd, trafod mater sy'n perthyn i'r profiad academaidd, ac ystyried gweithgareddau a pherfformiad y system gynrychiolaeth academaidd.

3.2 Caiff y Parth Academaidd ei gadeirio gan y Swyddog Materion Academaidd.

3.3 Bydd y Parth Academaidd yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

4. Parth Llesiant

4.1 Diben y Parth Llesiant yw cael y diweddaraf ar waith y Swyddog Llesiant, trafod materion sy'n ymwneud â llesiant myfyrwyr a sicrhau y caiff amrywioldeb corff y myfyrwyr ei ddathlu a'i gefnogi.

4.2 Caiff y Parth Llesiant ei gadeirio gan y Swyddog Llesiant.

4.3 Bydd y Parth Llesiant yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

5. Parth Cymdeithasau

5.1 Diben Parth y Cymdeithasau yw cael y diweddaraf ar waith y Swyddog Cyfleoedd i Fyfyrrwyr, trafod materion sy'n ymwneud â datblygiad y cymdeithasau, gwirfoddoli a RAG (Codi a Rhoddi).

5.2. Caiff Parth y Cymdeithasau ei gadeirio gan y Swyddog Llesiant.

5.3 Bydd Parth y Cymdeithasau'n cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

6. Parth Chwaraeon

6.1 Diben y Parth Chwaraeon yw cael y diweddaraf ar waith y Swyddog Cyfleoedd i Fyfyrrwyr, trafod materion sy'n ymwneud â datblygiad y clybiau, chwaraeon hamddenol, gwirfoddoli a RAG (Codi a Rhoddi).

6.2. Caiff y Parth Chwaraeon ei gadeirio gan y Swyddog Cyfleoedd i Fyfyrrwyr.

6.3 Bydd y Parth Chwaraeon yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.